OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2835 (Cy.200)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005

Wedi'u gwneud - -	*11 Hydref 2005*
Yn dod i rym - -	*25 Tachwedd 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**) ac wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 25 Tachwedd 2005.

Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996

2. Diwygir Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**4**) (i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru) yn unol â rheoliadau 3 i 7.

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 2000/13", yn lle'r geiriau o "and Commission Directive 2002/67/EC" hyd at y diwedd rhodder y geiriau "Commission Directive 2002/67/EC(**5**) on the labelling of foodstuffs containing quinine, and of foodstuffs containing caffeine and Commission Directive 2005/26/EC(**6**) establishing a list of food ingredients or substances provisionally excluded from Annex IIIa of Directive 2000/13/EC".

(**1**) 1990 p.16; amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990; diwygiwyd adran 53(2) gan Atodlen 6 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p. 28) ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Secretary of State" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(**4**) O.S. 1996/1499; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1398, 1999/747, 1136, 1483, 2003/832 (Cy.104), 2004/249 (Cy.26), 2004/3022 (Cy.261).

(**5**) OJ Rhif L191, 19.7.2002, t.20.

(**6**) OJ Rhif L75, 22.3.2005, t.33.

4. Yn rheoliad 13(8)(c) (trefn y rhestr gynhwysion) mewnosoder ar y diwedd y geiriau "other than, until 25 November 2007, ingredients which originate from an allergenic ingredient and are listed in column 2 of Schedule 2A in relation to that allergenic ingredient".

5. Yn rheoliad 34B (bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion alergenig neu gynhwysion sy'n dod o gynhwysion alergenig)—

(a) ym mharagraff (1) yn lle'r geiriau "Subject to paragraph (2)" rhodder y geiriau "Subject to paragraphs (2) and (3)";

(b) ym mharagraff (2)(b) mewnosoder ar y dechrau y geiriau "subject to paragraph (3) of this regulation";

(c) mewnosoder ar y diwedd y paragraff canlynol—

"(3) Paragraphs (1) and (2)(b) of this regulation shall not apply before 25th November 2007 as respects any ingredient which originates from an allergenic ingredient and is listed in column 2 of Schedule 2A in relation to that allergenic ingredient.".

6. Yn rheoliad 50(12)(b)(iii) (darpariaeth drosiannol) mewnosoder ar ôl y rhif "12" y geiriau "(as read with regulation 5 of the Food Labelling (Amendment) (Wales) (No. 2) Regulations 2005)".

7. Ar ôl Atodlen 2 (dangosiadau o driniaeth) mewnosoder fel Atodlen 2A gynnwys yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

11 Hydref 2005

(**7**) 1998 p.38.